Gwerthusiad o Social Value Cymru

Prosiect a ariannwyd gan y Loteri

Mesur a Rheoli Gwerth Cymdeithasol

Sut gall gwerth cymdeithasol ddatgloi potensial y blaenoriaethau deddfwriaethol yng Nghymru?

Mantell Gwynedd
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

Cronfa Gymunedol Community Fund

Mae'n bleser go iawn gweld sut mae'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol wedi cymryd gafael yng Ngwynedd ac yng Ngogledd Cymru. Teimlaf yn hynod falch mai Mantell Gwynedd sydd wedi bod wrth y llyw, gyda chefnogaeth Social Value UK, yn gyrru'r holl waith yma gan rannu'r arfer da.

Mae'r trydydd sector, heb os, yn cyflawni gwaith aruthrol o bwysig ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i wella bywydau unigolion. Fodd bynnag dydi'r sector ddim wastad wedi bod yn dda am ddangos gwerth y gwaith mewn ffordd synhwyrol a chyson a dealladwy. Mae cyflwyno'r sector i fesur gwerth cymdeithasol wedi bod yn fodd i adnabod ffordd ddealladwy a syml o fedru mesur gwerth y sector.

Mae fy niolch yn fawr i'r Loteri. Bu swm o arian o 'Gronfa Dyfodol Gwell y DU yn fodd i ni dreialu'r holl broses yn y lle cyntaf er mwyn deall y manteision o fesur gwerth cymdeithasol. Wedi hynny bu'r Loteri yng Nghymru yn gefnogol trwy Gronfa Sgiliau'r Trydydd Sector. Galluogodd yr arian yma inni fedru gwreiddio'r cysyniad o fesur gwerth cymdeithasol yng ngwaith Mantell Gwynedd gan rannu'r sgiliau hynny gyda Chynghorau Gwirfoddol Gogledd Cymru a mudiadau trydydd sector ar draws y Rhanbarth.

Gyda balchder aruthrol mae Mantell Gwynedd wedi bod yn gyfrifol am yr Ymarferydd Achrededig Mesur Gwerth Cymdeithasol dwyieithog cyntaf ym Mhrydain. Yn ychwanegol, daeth Mantell Gwynedd i'r brig gan ennill statws cenedlaethol fel y corff ymbarél cyntaf yn y DU i fod yn gwreiddio gwerth cymdeithasol yn ei holl waith gan ennill tystysgrif arbennig am y gwaith.

Erbyn hyn rydym yn mesur cyflawniad ein gwaith yn erbyn blaenoriaethau deddfwriaethol Cymru ac yn parhau i wneud y cysylltiad pwysig rhwng gwerth cymdeithasol a'r blaenoriaethau hyn.

Gyda mawr ddiolch i Loteri Cymru, Social Value UK, ein holl bartneriaid a phawb o Mantell Gwynedd sydd wedi galluogi hyn i ddigwydd.

Bethan Russell Williams
Prif Swyddog
Mantell Gwynedd

Mae Social Value UK yn fudiad cenedlaethol sy'n perthyn i Social Value International, mudiad byd-eang sy'n gweithio i newid y ffordd mae'r byd yn cyfrifo gwerth. Rydym yn gorff proffesiynol sy'n gweithio gydag aelodau ar draws bob sector i wella'r ffordd y caiff gwerth cymdeithasol ei gyfrifo, ei fesur a'i uchafu. Mae ein gwaith yn seiliedig ar Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol a'n nod yw rhoi mwy o lais i bobl sy'n ddi-rym neu'n brin eu grym. Credwn mewn byd lle bydd diffiniad ehangach o werth yn newid y broses o wneud penderfyniadau ac yn y pen draw yn lleihau anghydraddoldeb a diraddiad amgylcheddol.

Mae nifer cynyddol o fudiadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn cydnabod bod angen newid sut rydym yn cyfrif am werth cymdeithasol, a'r allwedd i wneud hyn yw arddel dull o fesur gwerth cymdeithasol er mwyn rheoli, ac yn y pen draw, manteisio i'r eithaf ar y gwerth cymdeithasol a grëwn. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y llwyddodd mudiadau i weithio gyda Social Value Cymru i ennyn dealltwriaeth ehangach o'u heffaith, ond hefyd sut gall y data eu helpu i wneud mwy o newidiadau gwybodus a'u helpu gyda'u cynllunio strategol.

Mae Mantell Gwynedd wedi bod yn aelod o SVUK ers 2014 ac mae'n bleser gennym weld sut mae Social Value Cymru wedi tyfu dros y blynyddoedd a sut mae'r prosiect arloesol hwn ar draws Gogledd Cymru wedi datblygu. Mae gan Gymru beth o'r ddeddfwriaeth fwyaf arloesol yn y byd, ac mae hyn yn creu'r potensial i newid y ffordd caiff penderfyniadau eu gwneud. Gweithiodd y prosiect hwn yn agos gyda mudiadau i fesur llesiant a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n creu gwerth i'r holl randdeiliaid.

Ben Carpenter
Prif Swyddog Gweithredol
Social Value UK

Cefndir

Elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant yw Mantell Gwynedd. Mantell Gwynedd yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Ngwynedd.

Cychwynnodd Mantell Gwynedd ar ei thaith gwerth cymdeithasol yn 2014 gyda'r nod o ennyn gwell dealltwriaeth o'r gwerth cymdeithasol a grëwyd trwy brosiectau'r mudiad ei hun. Fel mudiad ymbarél, mae Mantell Gwynedd yn derbyn arian craidd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni pedwar piler gwaith allweddol. Y pileri hyn yw Llywodraethu Da, Cyllid Cynaliadwy, Gwirfoddoli ac Ymgysylltu a Dylanwadu. Roedd yn amlwg bod gwerth cymdeithasol yn rhan annatod o'r holl feysydd allweddol hyn a sefydlwyd Social Value Cymru yn y lle cyntaf i alluogi Mantell Gwynedd i fesur a rheoli ei gwerth cymdeithasol ei hun.

Mae Social Value Cymru yn cynnig gwasanaethau cymorth, cyngor ac ymgynghori i fudiadau trydydd sector ledled Gwynedd a thu hwnt.

Gwyddom fod gweithio gyda rhanddeiliaid yn ein galluogi i ddeall sut mae gweithgareddau'n creu effeithiau ar fywydau pobl ac ar fudiadau.

Mae arddel Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol yn golygu ein bod yn gallu rhoi gwerth i'r effeithiau hyn, ac o wneud hynny rydym wedi helpu mudiadau i ddeall, cyfleu a rheoli gwerth cymdeithasol eu gwaith yn well.

Y prosiect

Yn y lle cyntaf, sefydlwyd Social Value Cymru gyda chefnogaeth cynllun Cronfa Dyfodol Gwell Loteri Fawr y DU. Yn dilyn llwyddiant y peilot hwn, cafodd Mantell Gwynedd gyllid pellach trwy gronfa Sgiliau'r Trydydd Sector, y Loteri Fawr, a sefydlwyd partneriaeth arloesol rhwng y pum Cyngor Gwirfoddol Sirol arall yng Ngogledd Cymru, a rhannodd Mantell Gwynedd yr hyn roedd wedi'i ddysgu am fesur gwerth cymdeithasol hyd yma.

Fel mudiadau sy'n cefnogi'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol sydd yn y sefyllfa orau i alluogi mudiadau i ddangos a chyfleu eu heffaith ar gymunedau.

Y pedwar deilliant allweddol a fwriadwyd ar gyfer y prosiect Social Value Cymru a ariannwyd gan y Loteri oedd:

- Meithrin sgiliau Cynghorau Gwirfoddol Sirol i gynnig cefnogaeth i fudiadau er mwyn mesur gwerth cymdeithasol
- Cefnogi darparwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau yng Ngogledd Cymru i wreiddio mesur gwerth cymdeithasol yn eu mudiadau
- Meithrin sgiliau ymddiriedolwyr i ddefnyddio'r wybodaeth effaith gymdeithasol hon i oleuo eu penderfyniadau, ac felly eu galluogi i reoli effaith gymdeithasol
- Datblygu rhwydwaith cefnogi yng Ngogledd Cymru i ddatblygu trydydd sector cryfach yng Ngogledd Cymru, gyda mwy o ffocws ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a gallu cysylltu gwasanaethau â blaenoriaethau deddfwriaethol.

Gwerth Cymdeithasol

Gall bobl ddehongli'r syniad o werth cymdeithasol yn wahanol, ond yn y bôn, mae'n ymwneud â deall:

a) beth sydd wedi newid ym mywyd rhywun o ganlyniad i weithgareddau penodol, a

b) rhoi gwerth i'r newidiadau hynny.

Wedi'i seilio ar 7 egwyddor gwerth cymdeithasol (gweler isod), mae gwerth cymdeithasol yn ei gwneud yn bosibl inni drafod canlyniadau'n gwaith yn yr un iaith â'r gost o greu'r canlyniadau hynny. Trwy ofyn i bobl sut maen nhw'n gwerthfawrogi'r newid yn eu llesiant, caiff penderfynwyr wybodaeth fwy cyflawn ynghylch effeithiau pwysig eu penderfyniadau, a deall gwerth cymharol amrywiol ganlyniadau i amrywiaeth o randdeiliaid. Mae'r wybodaeth hon yn creu trafodaeth sy'n cynnwys tystiolaeth ystyrlon ar werth cymharol newidiadau yn llesiant bobl, wedi'u mynegi mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cyfrifon ariannol cyffredinol a golyga hynny fod yr wybodaeth yn ddigon da i wneud penderfyniad gwell. Mae'n bwysig nodi nad yw'n golygu bod rhaid inni ddefnyddio technegau gyda gwydnwch gwyddonol bob amser; ond yn y pen draw, mae'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y penderfyniadau a wneir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf bosibl, o fewn ffiniau'r adnoddau sydd ar gael.

7 Egwyddor Gwerth Cymdeithasol yw:

1. Cynnwys rhanddeiliaid;
2. Deall beth sy'n newid;
3. Rhoi gwerth ar yr hyn sydd o bwys;
4. Cynnwys dim ond yr hyn sy'n berthnasol;
5. Peidiwch â gor-hawlio;
6. Byddwch yn dryloyw;
7. Gwiriwch y canlyniad.

Mae gwybodaeth bellach am yr Egwyddorion hyn ar gael gan Social Value UK , ond gobeithio bod eu tebygrwydd i ofynion y ddeddfwriaeth yng Nghymru yn glir i'w weld.

Gwerth Cymdeithasol a'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru

Mae'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru yn gofyn i bob sector weithio mewn ffyrdd gwahanol, gydag anghenion dinasyddion wrth galon gwneud penderfyniadau. Mae prif egwyddorion a gwerthoedd allweddol rhywfaint o ddeddfwriaeth a strategaethau allweddol Cymru i'w gweld yn y tabl isod:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Gwerthoedd Cymru Iachach
• Llais a Rheolaeth • Atal ac Ymyrraeth Gynnar • Llesiant • Cydgynhyrchu	• Y tymor hwy • Integreiddio • Cyfranogiad • Cydweithio • Atal	• Cydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor • Mesur canlyniadau iechyd a llesiant sy'n bwysig i bobl • Helpu pobl yn rhagweithiol • Ysgogi trawsnewid • Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant neilltuol trefn system gyfan Cymru

http://www.socialvalueuk.org/why-social-value/the-principles-of-social-value/

Yn y bôn, ystyr gwerth cymdeithasol yw beth sydd wedi newid o ganlyniad i weithgareddau a gwerth y newidiadau hynny. Newidiadau ym mywydau pobl yw'r rhain, ynghyd â newidiadau i randdeiliaid eraill o ganlyniad. Er enghraifft, pe byddai Gweithiwr Cyswllt Cymunedol yn cefnogi unigolyn i ailgydio yn ei gymuned, gallai'r unigolyn ddod yn llai unig a thros amser gallai ganfod gwelliannau llesiant meddyliol a chorfforol. Mae'n debygol y bydd y newidiadau hyn hefyd yn arwain at osgoi'r angen am ymyraethau statudol eraill gan y Bwrdd Iechyd neu'r Awdurdod Lleol yn y dyfodol. Gellid mesur newidiadau megis llai o ymweliadau at y meddyg teulu hefyd. O fesur a rheoli gwerth cymdeithasol, gallwn wireddu'r elfennau hyn o ddeddfwriaeth Cymru go iawn.

Egwyddor gyntaf gwerth cymdeithasol yw cynnwys rhanddeiliaid, a dylid gwneud hyn drwy gydol y broses o fesur gwerth cymdeithasol. Pan fo mudiad yn mesur ac yn rheoli eu gwerth cymdeithasol, nid yw'r broses honno'n bosibl heb ganiatáu i fuddiolwyr / cleientiaid gael **llais, rheolaeth a chyfranogaeth**. Dim ond trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid y mae'n bosibl inni ddeall beth sydd wedi newid (yn gadarnhaol ac yn negyddol) a pha mor bwysig yw'r newidiadau hynny. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor gyntaf o gydgynhyrchu, sef 'gwerthfawrogi pob cyfranogwr a datblygu eu cryfder'. Mae caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth ddweud eu straeon wrthym yn eu grymuso ac mae'n eu galluogi i roi adborth am eu profiadau, sy'n caniatáu i ni ddysgu a datblygu'r hyn a weithiodd yn dda, ond hefyd beth allai fod yn well.

Prisio yw'r hyn sy'n gwneud gwerth cymdeithasol ac SROI yn wahanol i ddulliau mesur eraill:

"Mae angen i benderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau rhwng amrywiol opsiynau gydnabod gwerthoedd y rhanddeiliaid. Mae gwerth yn cyfeirio at bwysigrwydd cymharol amrywiol ddeilliannau. Fe'i goleuir gan yr hyn mae rhanddeiliaid yn ei ffafrio." SVUK

Gellir gwneud hyn drwy bennu gwerth ariannol, ond nid oes raid gwneud hynny. Yn nhermau

https://copronet.cymru/

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chydgynhyrchu, golyga hyn fesur a rheoli **'beth sy'n bwysig'** i'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw yn nhermau eu **llesiant**. Rydym oll yn gwerthfawrogi pethau, a byddwn yn eu gwerthfawrogi'n wahanol yn dibynnu ar sefyllfa ein bywydau, a gall y ddirnadaeth hon fod o gymorth gwirioneddol inni wrth ddeall beth sydd bwysicaf i bobl, a sut gallwn flaenoriaethu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r broblem.

Pan fyddwn wedi mesur gwerth cymdeithasol, mae angen inni wirio, sy'n golygu mynd yn ôl at ein rhanddeiliaid i ofyn a ydym wedi deall y stori'n gywir. Pan fyddwn yn glir ar beth yw ein deilliannau fel mudiad, neu ar ba wasanaethau y dylem ganolbwyntio, gallwn fynd ati i wreiddio dulliau rheoli effaith i helpu gyda gwneud penderfyniadau, a'r gobaith yw y bydd hyn yn gwella ac yn uchafu'r gwerth cymdeithasol a grëir i bobl. Golyga'r seilwaith sydd wedi'i osod dros flynyddoedd lawer fod pob penderfyniad yn cael ei ysgogi gan ein cyllidebau ariannol a'n targedau allbwn. Yn aml iawn, mae hyd yn oed mudiadau a chanddynt nod gymdeithasol dan faich prosiectau a ariennir am gyfnodau byr, ac nid yw hynny'n rhoi'r amser na'r wybodaeth iddynt i'w galluogi i wneud pethau'n wahanol dros y bobl bwysicaf oll iddyn nhw. Fel Rheolwr, Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr neu Gomisiynydd, trwy wreiddio egwyddorion gwerth cymdeithasol, gallwn **rannu grym** trwy ganiatáu i'n cyfeiriad strategol gael ei ddylanwadu arno gan yr hyn mae ein rhanddeiliaid yn ei fynegi sydd fwyaf gwerthfawr iddyn nhw, ac yna **'gall pobl fod yn grewyr newid'**.

Y prosiect – y mudiadau

Y nod oedd cefnogi 30 o fudiadau trydydd sector ledled Gogledd Cymru, pump ym mhob sir. Yn dilyn proses ymgeisio, bu 28 o fudiadau'n llwyddiannus ac fe'u gwahoddwyd i fod yn rhan o'r prosiect a derbyn cefnogaeth i wreiddio gwerth cymdeithasol yn eu mudiadau dros gyfnod o ddwy flynedd. Un o nodau Social Value Cymru oedd sicrhau bod amrywiaeth o fudiadau'n cymryd rhan yn y prosiect. Roedd y 28 mudiad yn cynnwys rhai cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac edrychodd hefyd ar drawstoriad o wasanaethau yn cynnwys iechyd meddwl, plant a phobl ifanc, anableddau dysgu a chorfforol, pobl hŷn, prosiectau cymunedol, camdriniaeth ddomestig a rhywiol, y celfyddydau, rhaglenni cyflogaeth a'r iaith Gymraeg.

Roedd y gefnogaeth yn cynnwys:

- Hyfforddi aelodau staff a'r Hyrwyddwr Gwerth Cymdeithasol ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Mentora ac ymgynghori
- Creu eu hadroddiad gwerth cymdeithasol eu hunain ar un o'u gweithgareddau
- Cynorthwyo mabwysiadu fframwaith i reoli eu heffaith gymdeithasol.

Derbyniodd 25 o fudiadau gefnogaeth, yn cynnwys:

- Y Bartneriaeth Awyr Agored
- Anheddau Cyf
- Tan y Maen
- Canolfan Lôn Abaty
- Cerrig Camu
- Kaleidoscope Gogledd Cymru
- Cwmni'r Frân Wen
- Tyddyn Môn
- Book of You CIC
- Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych
- Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych
- Creu Menter
- CAIS
- Creatasmile
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- BAWSO
- Advance Brighter Futures
- Gardd Furiog Fictoraidd Erlas
- Dynamic
- Empower – Be the Change
- Pentref Peryglon
- Menter Iaith Wrecsam a Fflint
- KIM inspire
- Gofal a Thrwsio Sir y Fflint

Yn anffodus, tynnodd tri mudiad yn ôl o'r prosiect am amrywiol resymau.

Mae astudiaethau achos ar gael ar wefan Mantell Gwynedd, a dyma rai enghreifftiau isod:

Y Bartneriaeth Awyr Agored

Helpodd y prosiect y mudiad i fesur effaith eu rhaglen Llwybrau i Waith. Nod y rhaglen hon yw cefnogi pobl yng Ngogledd Cymru sydd naill ai'n cael eu profiad cyntaf o'r awyr agored neu sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau personol a / neu broffesiynol, sy'n arwain at ffordd fwy egnïol o fyw, gwirfoddoli a chyflogaeth.

Derbyniodd yr adroddiad gefnogaeth gyda'r Arweinlyfr Mesur a Rheoli a rhaglen i reoli eu heffaith gan Social Value Cymru. Derbyniodd nifer o'r staff hyfforddiant ar reoli effaith gymdeithasol ac maen nhw nawr yn gwreiddio'r mesuriadau hyn ar draws eu holl brosiectau. Bu'r Hyrwyddwr Gwerth Cymdeithasol yn rhan o'r gwaith hwn o'r dechrau er mwyn sicrhau ymroddiad y sefydliad ar bob lefel.

"Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn gwella cyfleoedd pobl Cymru i gyrraedd eu llawn botensial drwy weithgareddau awyr agored. Gallwn weld y gwahaniaeth mae'n prosiectau yn ei wneud i gymaint o bobl, ond mae'n anodd dangos deilliannau positif i'n rhanddeiliaid a phartneriaid cyllidol. Mae bod yn rhan o'r prosiect mesur gwerth cymdeithasol yn ein helpu i ddangos yr enillion ar fuddsoddiad i'n prif randdeiliaid yn ogystal â'n helpu i wneud penderfyniadau mewnol i wella gwasanaethau a chyfeiriad strategol y dyfodol."

Tracey Evans, Prif Swyddog Gweithredol

Empower—Be The Change

Dyma fenter gymdeithasol wedi'i lleoli yn Wrecsam sy'n darparu rhaglenni a gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru. Gweithiodd tîm SVC gyda'r mudiad i fesur effaith eu rhaglen 'Empowerment Programme' a gwreiddio systemau i fesur effaith eu gwasanaethau. Mae'r rhaglen yn cefnogi unigolion i feithrin eu gwydnwch meddyliol a'u hyder er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau yn eu bywydau, a hynny yn eu bywydau personol ynghyd ag yn eu hamgylchedd gwaith neu hyfforddiant / addysg.

"Mae bod yn rhan o'r prosiect gyda Social Value Cymru wedi bod yn hynod werthfawr i Empower – Be The Change. Fel egin fenter gymdeithasol gymharol newydd, mae wedi bod yn arbennig o dda cael cymaint o gefnogaeth gan Eleri a'r tîm, i'n galluogi i fynd ati yn gyntaf i ganfod y gwir ddeilliannau mae ein cyfranogwyr yn eu cael o'n rhaglenni ac yn ail i roi dulliau mesur cadarn a pherthnasol ar waith i fesur y gwerth a'r effaith yn barhaus.

Mae'r rhaglen wedi ein helpu i ganfod pryd a sut rydym yn creu gwerth, nodi'r segmentau targed a dechrau gwneud penderfyniadau mwy strategol ynghylch sut rydym yn defnyddio ein buddsoddiad. Mae mesur gwerth cymdeithasol wedi'i wreiddio ym mhopeth a wnawn fel cwmni erbyn hyn ac ni fyddai hyn wedi digwydd heb y gefnogaeth gan Social Value Cymru."

Jo Clay, Sefydlydd & Arweinydd Arloesedd

Creu Menter

"Mae gweithio mor agos gydag Eleri a'r tîm ym Mantell Gwynedd a Jan o CVSC ar gynhyrchu ein hadroddiad gwerth cymdeithasol wedi profi'n gyfle ardderchog inni yma yn Creu Menter i fyfyrio ar lwyddiannau ein cydweithwyr a'n gwirfoddolwyr, i ddathlu llwyddiant a chanfod meysydd ar gyfer gwella yn y dyfodol. Rydym wrth ein boddau gyda chanlyniad yr adroddiad am werth cymdeithasol ein gwasanaeth gwirfoddoli, sy'n dangos bod y prosiect yn werth £6 i gymdeithas am bob £1 a fuddsoddir yn y prosiect, sy'n cyfrifo enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad o fwy na £360,000 bob blwyddyn. Rydym hefyd yn gyffrous am gynnwys argymhellion yr adroddiad yn ein cynllunio strategol wrth inni symud yn ein blaenau."

Sharon Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau - Gwerth Cymdeithasol

Eleri'n chwarae'r gêm Gwerth gyda gwirfoddolwyr yn Creu Menter

Lle Chi neu Ni

Datblygwyd partneriaeth yng Nghorwen i ddatblygu cymuned iach, ffyniannus ac wedi'i grymuso, un y mae pawb yn teimlo'n perthyn iddi. Daeth y ganolfan yn galon y gymuned, ac yno cynhelir clybiau cinio a chymdeithasu, cludiant cymunedol, mynediad at wasanaethau a chyngor, digwyddiadau teuluol a llawer iawn mwy. Bu'r bartneriaeth yn gweithio gyda thîm Social Value Cymru i fesur yr effaith ond hefyd i edrych ar reoli'r effaith ac edrych ar sut i gynllunio'r prosiect.

"Mae Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi mwynhau ac wedi elwa'n arw o gymryd rhan ym mhrosiect Social Value Cymru. Mae wedi gwella ein hymgysylltu â rhanddeiliaid ac wedi gwella ein sgiliau gwerthuso. Bydd yr hyn a ddysgom a'r gefnogaeth yn ein helpu i reoli ein prosiect "Lle Chi neu Ni" a'n gwaith ehangach er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr hyn a wnawn dros ein cymuned."

Graham Kendall, Swyddog Datblygu Ceisiadau

Effaith y prosiect

Am bob £1 a fuddsoddwyd yn prosiect, crëwyd £1.71 o Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

Mewnbynnau

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Allbynnau

27 o fudiadau wedi'u cefnogi i wreiddio gwerth cymdeithasol

5 Cyngor Gwirfoddol Sirol wedi'u cefnogi i wreiddio sgiliau effaith gymdeithasol

Deilliannau Bwriadedig

Gwell setiau sgiliau ymysg chwe Cyngor Gwirfoddol Sirol Gogledd Cymru gan fod mesur gwerth cymdeithasol wedi cael ei integreiddio yng ngwasanaethau cefnogaeth cyffredinol y Cynghorau

Mudiadau'r trydydd sector yn gallu dangos eu gwerth cymdeithasol yn well.

Ymddiriedolwyr wedi'u harfogi'n well i wella perfformiad eu mudiad.

Trydydd sector cryfach yng Ngogledd Cymru gyda mwy o ffocws ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a'r gallu i gysylltu gwasanaethau â blaenoriaethau deddfwriaethol

Adroddodd pob mudiad a gwblhaodd y rhaglen rywfaint o newid cadarnhaol yn y deiliannau canlynol:

- ✓ **Mudiadau'n gallu mesur gwerth cymdeithasol gweithgareddau'n well**
- ✓ **Mudiadau'n gallu gwreiddio egwyddorion gwerth cymdeithasol ym mhopeth a wnânt**
- ✓ **Mudiadau'n gallu defnyddio gwybodaeth effaith gymdeithasol i oleuo eu penderfyniadau**
- ✓ **Mudiadau'n gallu adrodd ar effaith gymdeithasol i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol yn well**

SOCIAL VALUE COMMIT 1 CERTIFICATE
AWARDED BY SOCIAL VALUE INTERNATIONAL

Mudiad seilwaith cyntaf yn y Deyrnas Unedig i dderbyn tystysgrif Lefel 1 i ddangos ein hymroddiad i werth cymdeithasol

Dyfarnwyd tystysgrif Cymeradwyaeth Uchel inni am Ddyfarniad Prosiect ar gyfer Cydweithredu i Wella Gwerth Cymdeithasol Lleoliad, yng Nghynhadledd Genedlaethol Gwerth Cymdeithasol yn Llundain, Ionawr 2020

Yr Uwch Ymarferydd Dwyieithog Cyntaf yng Nghymru

Heriau **Yr hyn a allai fod wedi mynd yn well**

1 Teimlai rhai mudiadau fod cefnogaeth dros gyfnod o ddwy flynedd yn rhy hir, ond teimlai eraill nad oedd yn ddigon hir gan ei bod yn her cael yr amser a'r adnoddau i wreiddio'r hyn a ddysgwyd. Yr hyn oedd yn amlwg oedd bod cael cefnogaeth o fewn Cynghorau Gwirfoddol Sirol i ddarparu cefnogaeth sylfaenol yn fanteisiol, ond roedd cael arbenigedd parhaus yn bwysig hefyd. Teimlwyd fod cael rhwydwaith gweithgar yn bwysig er mwyn cynnal momentwm a chefnogaeth.

2 Buasai rhai wedi hoffi mwy o amser i ganolbwyntio ar wneud cyfrifiadau.

3 Roedd yn heriol rhoi amser staff i sicrhau y câi'r sgiliau hyn eu gwreiddio. Fodd bynnag, roedd rhai o'r mudiadau bach iawn wedi llwyddo i wneud hyn ac felly nid yw'n ymddangos mai maint y sefydliad oedd y prif rwystr, ond natur y gwasanaeth.

4 Roedd amser yn bryder i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd, gan fod gallu rhoi amser i wreiddio'r sgiliau hyn yn ogystal â'u rolau arferol yn heriol a byddai'n fanteisiol cael adnoddau penodol ar gyfer hyn.

"Mae hwn yn brosiect gwych sydd wedi'n galluogi ni i ddysgu, deall a defnyddio SROI yn y mudiad ac mae'n help gwirioneddol wrth inni wneud penderfyniadau strategol am ble i ganolbwyntio ein hamser a'n hadnoddau"

"Roedd y prosiect wedi'i drefnu'n dda ac roedd y berthynas a ddatblygwyd yn hwb i'n hyder. Roedd y daith maes yn werthfawr iawn ac mae'r adnodd mesur a grëwyd yn rhagorol, gan ei fod yn cofnodi'r dystiolaeth sy'n dangos sut cyrhaeddom ein canlyniadau ac mae'n ein galluogi inni brofi ble fuasai newidiadau'n fwyaf effeithiol."

"Cefnogaeth ardderchog, ni fuasai wedi bod yn bosibl inni wneud hyn heb y prosiect!"

"Prosiect gwerthfawr iawn i'n helusen"

"Mae cymryd rhan yn y prosiect wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Mae'r tîm wedi bod o gymorth mawr ac yn gefnogol iawn ac rydym yn ddiolchgar iawn i gael cymryd rhan, gan ein bod yn gobeithio y caiff effaith gadarnhaol ar yr elusen wrth inni symud ymlaen i wreiddio hyn. Mae'r adnodd yn hynod ddefnyddiol ac mae'r cynadleddau / cyfarfodydd i rannu arfer gorau hefyd wedi bod o gymorth er mwyn rhannu'n profiadau a'n syniadau gydag eraill. Mae'r prosiect wedi bod yn hynod werthfawr i'r elusen."

Yr Adnoddau a ddatblygwyd

Datblygwyd Arweiniad i Gynghorau Gwirfoddol Sirol er mwyn cefnogi'r staff i roi arweiniad i fudiadau ar fesur effaith gymdeithasol

Datblygwyd Arweiniad i fudiadau ynghyd ag adnodd ar Excel i fudiadau gael mesur a rheoli eu gwerth cymdeithasol. Mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Mantell Gwynedd ynghyd â gweminar.

Negeseuon allweddol

1 Mae gwreiddio gwerth cymdeithasol yn caniatáu i'r mudiad gadw at ofynion y fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru.

2 Mae angen cefnogaeth ar fudiadau i fedru gwreiddio'r sgiliau hyn. Mae hyn yn cymryd llawer o amser ac adnoddau ond roedd y gwerth a grëwyd o wneud hynny'n uchel.

3 Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor ac arweiniad ar effaith gymdeithasol.

4 Mae Mesur a Rheoli gwerth cymdeithasol yn caniatáu i fudiadau ddangos eu heffaith gymdeithasol i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, ond yn bwysicach fyth, mae'n eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n gallu eu cynorthwyo i uchafu eu gwerth cymdeithasol.

Sicrhau rhwydwaith cefnogaeth yng Ngogledd Cymru i ddatblygu'r agenda gwerth cymdeithasol a sicrhau partneriaethau da ar draws sectorau

Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Mae Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gynnal ledled Gogledd Cymru. Mae'r aelodau'n amrywio o academyddion Prifysgolion, Swyddogion Awdurdod Lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, y Bwrdd Iechyd, mentrau cymdeithasol a mudiadau trydydd sector. Mae'r rhwydwaith yn rhoi cyfle i aelodau gwrdd; dadlau a thrafod eu gwaith; edrych ar unrhyw heriau neu atebion maen nhw'n cael profiad ohonynt, ac i rwydweithio â phobl o'r un meddylfryd.

Fforwm Gwerth Cymdeithasol

Mae Rhan 2, Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol Cymru, gyda phartneriaid bwrdd iechyd lleol, i: "sefydlu fforymau rhanbarthol i helpu darparwyr sy'n darparu gwerth cymdeithasol i feithrin cyd-ddealltwriaeth o'r agenda gyffredin, ac i rannu a datblygu arferion da. Nod y fforwm hwn yw hybu sector gwerth cymdeithasol ffyniannus sy'n gallu cyflawni cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ac yn barod i wneud hynny".

Mae'r fforwm gwerth cymdeithasol yn cynnwys pobl o'r trydydd sector, y sector annibynnol a gwasanaethau statudol sy'n archwilio sut i hyrwyddo gwerth cymdeithasol mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae staff Mantell Gwynedd yn eistedd ar Grŵp Llywio'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol, a'r nod yw i bob awdurdod lleol gael fforwm gwerth cymdeithasol.

Cynhadledd Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru, Hydref 2019

Trefnwyd y digwyddiad hwn mewn partneriaeth â Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru a sefydlwyd mewn ymateb i Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Un o'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf gan Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yw sefydlu / gweithredu mesurau effaith Gwerth Cymdeithasol o fewn gweithgaredd comisiynu a chaffael ledled Gogledd Cymru.

Dylai'r cyflwyniadau, y gweithdai a'r trafodaethau rownd y bwrdd ein cynorthwyo wrth ystyried blaenoriaethu gwerth cymdeithasol ac effaith gymdeithasol yn ein mudiadau ein hunain a sut allwn ni wneud hyn. Yn bwysicach fyth, sut allwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i gytuno ar ddangosyddion a symud ymlaen i gynyddu effeithiau cyllido, comisiynu a chaffael i'r eithaf. Mae adroddiad llawn o'r gynhadledd ar gael ar ein gwefan.

Llwyddiannau unigryw'r prosiect a'i etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol

Roedd hwn yn brosiect unigryw ac arloesol dan arweiniad Mantell Gwynedd, ac yn ychwanegol at y canlyniadau a gyflawnwyd gan eraill fel y soniwyd yn yr adroddiad hwn, mae'r prosiect hwn yn dathlu **cyflawni pethau unigryw a fydd yn rhoi etifeddiaeth barhaol.**

Yn gyntaf, ein Rheolwr Gwerth Cymdeithasol oedd yr **Uwch Ymarferydd cyntaf yng Nghymru**, a hi yw'r unig ymarferydd dwyieithog sy'n gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg. Hi hefyd yw'r Hyfforddwr Achrededig cyntaf yng Nghymru sydd wedi'i hachredu trwy Social Value International.

Roedd Mantell Gwynedd hefyd yn falch iawn o fod y **mudiad ymbarél cyntaf a lwyddodd i ennill tystysgrif Lefel 1** fel mudiad. Dyfarnwyd hwn gan Social Value International ac mae'n dangos ymrwymiad y mudiad i werth cymdeithasol.

Mae'r buddsoddiad hwn wedi sicrhau etifeddiaeth i Social Value Cymru a dyna pam mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Mantell Gwynedd yn falch iawn o roi buddsoddiad pellach ar gyfer parhad Social Value Cymru. Mae hyn yn **sicrhau y gall Mantell Gwynedd barhau i gefnogi mudiadau i wreiddio gwerth cymdeithasol** yn ogystal â bod yn arweinwyr ar y mudiad gwerth cymdeithasol yng Nghymru.

Sut rydym yn cyfrannu at y nodau llesiant yng Nghymru

Mae'r graffig yn dangos sut mae'r deilliannau a grëwyd drwy weithgareddau'r mudiadau hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant fel y'i gosodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Drwy weithio gyda'r trydydd sector, gall y sector cyhoeddus wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at y nodau hyn.



Empower
- Cael mwy o foddhad o'u gwaith / hyfforddiant / rôl
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau

Gofal Cymdeithasol Cymru
- Teimlad o lwyddiant wrth fedru cyrraedd eu llawn botensial
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig

Bawso
- Annibyniaeth wedi gwella
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig

steppingstones cerrigcamu
- Gwell iechyd corfforol
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig

advance brighter futures
- Gwell iechyd corfforol
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig

Kaleidoscope
- Gwell iechyd corfforol
- Gwell llesiant meddyliol
- Rhyngweithio cymdeithasol yn well

DYNAMIC
- Plant yn teimlo'n fwy hyderus i gyrraedd eu potensial
- Annibyniaeth wedi gwella
- Plant yn teimlo'n llai ynysig

Tyddyn Môn
- Gwell iechyd corfforol
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig
- Annibyniaeth wedi gwella

CREU MENTER CREATING ENTERPRISE
- Gwell cyfleoedd cyflogaeth
- Cynnydd mewn teimladau o hunanwerth / cael eu gwerthfawrogi
- Cael mwy o foddhad o weithio / gwirfoddoli

North Wales Housing / Tai Gogledd Cymru
- Gwell iechyd corfforol
- Llai o straen a phryder
- Teimlo'n llai ynysig
- Annibyniaeth wedi gwella

book of you
- Llai o straen
- Llai unig ac ynysig
- Gwell perthynas gyda'r teulu

Cyfle Cymru
- Gwell iechyd corfforol
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig
- Mwy o hyder i ddod o hyd i gyflogaeth

SDCP CAD Cysylltu Cymunedau Connecting Communities
- Gwell llesiant meddyliol
- Llai ynysig
- Mwy o hyder i reoli eu harian eu hunain

Ymddiriedolaeth Anheddau cyf
- Gwell iechyd corfforol a meddyliol
- Llai unig
- Gallu cyrraedd eu llawn botensial
- Annibyniaeth wedi gwella

pentreperyglon dangerpoint
- Teimlo'n fwy diogel yn gyffredinol
- Mwy o hyder i wybod beth i'w wneud pan fyddant mewn perygl

Partneriaeth Awyr Agored Outdoor Partnership
- Gwell iechyd corfforol
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig

FRÂN WEN
- Gwell iechyd corfforol
- Gwell llesiant meddyliol
- Teimlo'n llai ynysig

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at y prosiect hwn, yn enwedig:

- Yr holl fudiadau a gymerodd ran ac a ddangosodd eu hymrwymiad i wreiddio gwerth cymdeithasol yn eu mudiad er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl i'w buddiolwyr.
- Yr holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol, ac yn arbennig yr aelodau staff a oedd yn rhan weithgar o'r prosiect hwn.
- Cronfa Gymunedol y Loteri Fawr am gefnogi'r prosiect newydd arloesol hwn.
- Aelodau'r Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

SOCIAL VALUE CYMRU

Mae Social Value Cymru yn rhan o Mantell Gwynedd.

Rydym yn cynnig cefnogaeth i fesur a rheoli eich gwerth cymdeithasol trwy gynnig cyngor ac ymgynghoriaeth i fudiadau yn y trydydd sector.

Beth allwn ni ei gynnig?

- Gweithdai Cyflwyniad i Werth Cymdeithasol
- Cyrsiau hyfforddiant mewnol wedi'u teilwra
- Asesiadau Gwerth Cymdeithasol
- Arweinlyfr ar gyfer Ymddiriedolwyr er mwyn gwneud gwell penderfyniadau
- Cefnogaeth i'ch mudiad gan Ymarferwyr Achrededig gyda Social Value International
- Cyngor ac ymgynghoriad arbenigol
- Cefnogaeth mentora ar gyfer hyrwyddo gwerth cymdeithasol yn eich mudiad

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

MEDRWN MÔN · CVSC www.cvsc.org.uk · DVSC CGGSDd · FLVC Flintshire Local Voluntary Council Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint · AVOW

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth:
01286 672626 **www.mantellgwynedd.com** @ValueCymru